



Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021

2021 dsc 3

Rhoi hysbysiad y landlord a thynnu'r hysbysiad yn ôl

6 Cyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan adran 173 neu 186 neu o dan gymal terfynu'r landlord: torri rhwymedigaethau statudol

- (1) Mae Deddf 2016 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn lle adran 176 (cyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan adran 173: gofynion rhoi gwybodaeth) rhodder—

“176 Cyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan adran 173: torri rhwymedigaethau statudol

Mae Atodlen 9A yn gosod cyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan adran 173, sy'n ymwneud â thorri rhwymedigaethau statudol penodol.”

- (3) Ar ôl adran 186 (hysbysiad y landlord mewn cysylltiad â diwedd cyfnod penodol) mewnosoder—

“186A Cyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan adran 186: torri rhwymedigaethau statudol

Mae Atodlen 9A yn gosod cyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan adran 186, sy'n ymwneud â thorri rhwymedigaethau statudol penodol.”

- (4) Yn lle adran 197 (cyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan gymal terfynu'r landlord: gofynion rhoi gwybodaeth) rhodder—

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Rhoi hysbysiad y landlord a thynnu'r hysbysiad yn ôl. (See end of Document for details)

“197 Cyfyngiadau ar y defnydd o gymal terfynu'r landlord: torri rhwymedigaethau statudol

Mae Atodlen 9A yn gosod cyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan gymal terfynu'r landlord, sy'n ymwneud â thorri rhwymedigaethau statudol penodol.”

(5) Yn [Neddf Rhentu Cartrefi \(Ffioedd etc.\) \(Cymru\) 2019 \(dccc 2\)](#)—

(a) yn lle adran 20 (cyfyngiadau ar derfynu contractau), rhodder—

“20 Cyfyngiadau ar derfynu contractau meddiannaeth safonol

Mae Atodlen 9A i [Ddeddf Rhentu Cartrefi \(Cymru\) 2016 \(dccc 1\)](#) yn cynnwys darpariaeth yn ymwneud â chontractau meddiannaeth safonol sy'n atal landlord rhag rhoi hysbysiad yn ceisio meddiant o anedd o dan adran 173 neu 186 o'r Ddeddf honno, neu o dan gymal terfynu'r landlord, os nad yw'r landlord wedi cydymffurfio â darpariaethau yn y Ddeddf hon sy'n ymwneud â thaliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw a gedwir.”;

(b) hepgorer Atodlen 3 (sy'n darparu ar gyfer mewnosod adrannau 177A, 186A i 186C a 198A i Ddeddf 2016, ac yn gwneud diwygiadau cysylltiedig eraill i'r Ddeddf honno).

(6) Mae Atodlen 2 yn mewnosod Atodlen 9A newydd i Ddeddf 2016, sy'n—

(a) atgynhyrchu'r cyfyngiadau ar roi hysbysiadau yn ceisio meddiant yn adrannau 176 i 177A, 186A i 186C a 197 i 198A o Ddeddf 2016 fel yr oeddent cyn eu diwygio neu eu hepgor yn rhinwedd y Ddeddf hon, a

(b) cynnwys pŵer i ddiwygio Atodlen 9A.

Gwybodaeth Cychwyn

II A. 6 mewn grym ar 7.6.2021, gweler [a. 19\(3\)](#)

7 Cyfyngiadau ar roi hysbysiadau landlord pellach o dan contract safonol cyfnodol

Yn lle adran 177 o Ddeddf 2016 (cyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan adran 173: gofynion sicrwydd a blaendal) rhodder—

“177 Cyfyngiadau ar roi hysbysiadau pellach o dan adran 173

(1) Mae is-adrannau (2) a (3) yn gymwys pan fo—

(a) landlord wedi rhoi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 173 (“yr hysbysiad cyntaf”), a

(b) y landlord wedi tynnu'r hysbysiad yn ôl wedi hynny (gweler adran 180(3)).

(2) Ni chaiff y landlord roi hysbysiad arall o dan adran 173 i ddeiliad y contract cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cafodd yr hysbysiad cyntaf ei dynnu'n ôl, ac eithrio yn unol ag is-adran (3).

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Rhoi hysbysiad y landlord a thynnu'r hysbysiad yn ôl. (See end of Document for details)

- (3) Caiff y landlord roi un hysbysiad arall o dan adran 173 i ddeiliad y contract yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad cyntaf.
- (4) Mae is-adran (5) yn gymwys pan fo—
 - (a) landlord wedi rhoi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 173, a
 - (b) y cyfnod ar gyfer gwneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 178 wedi dod i ben heb i'r landlord fod wedi gwneud hawliad.
- (5) Ni chaiff y landlord roi hysbysiad arall o dan adran 173 i ddeiliad y contract cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â diwrnod olaf y cyfnod y gallai'r landlord fod wedi gwneud yr hawliad cyn iddo ddod i ben (gweler adran 179(1)(b)).
- (6) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnodol sy'n ymgorffori adran 173 fel un o delerau'r contract.”

Gwybodaeth Cychwyn

12 A. 7 mewn grym ar 7.6.2021, gweler **a. 19(3)**

8 Tynnu hysbysiad o dan adran 173 ac o dan gymal terfynu'r landlord yn ôl

- (1) Mae Deddf 2016 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 180 (terfynu contract yn dilyn hysbysiad y landlord), yn is-adran (3), yn lle'r geiriau o “, cyn i'r contract ddod i ben” hyd at y diwedd, rhodder “—
 - (a) yw'r landlord, cyn i'r contract ddod i ben, ac yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad, yn tynnu'r hysbysiad yn ôl drwy roi hysbysiad pellach i ddeiliad y contract, neu
 - (b) cyn i'r contract ddod i ben, ac ar ôl y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad—
 - (i) yw'r landlord yn tynnu'r hysbysiad yn ôl drwy roi hysbysiad pellach i ddeiliad y contract, a
 - (ii) nad yw deiliad y contract yn gwrthwynebu mewn ysgrifen i'r tynnu'n ôl cyn diwedd cyfnod rhesymol.”
- (3) Yn adran 201 (terfynu contract o dan gymal terfynu'r landlord), yn is-adran (3), yn lle'r geiriau o “, cyn i'r contract ddod i ben” hyd at y diwedd rhodder “—
 - (a) yw'r landlord, cyn i'r contract ddod i ben, ac yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad, yn tynnu'r hysbysiad yn ôl drwy roi hysbysiad pellach i ddeiliad y contract, neu
 - (b) cyn i'r contract ddod i ben, ac ar ôl y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad—
 - (i) yw'r landlord yn tynnu'r hysbysiad yn ôl drwy roi hysbysiad pellach i ddeiliad y contract, a
 - (ii) nad yw deiliad y contract yn gwrthwynebu mewn ysgrifen i'r tynnu'n ôl cyn diwedd cyfnod rhesymol.”

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Rhoi hysbysiad y landlord a thynnu'r hysbysiad yn ôl. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I3 A. 8 mewn grym ar 7.6.2021, gweler **a. 19(3)**

9 Cyfyngiad ar roi hysbysiad o dan adran 173 ac o dan gymal terfynu'r landlord yn dilyn hawliad meddiant dialgar

- (1) Mae Deddf 2016 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ar ôl adran 177 (a fewnosodir gan adran 7) mewnosoder—

“177A Cyfyngiad ar roi hysbysiad o dan adran 173 yn dilyn hawliad meddiant dialgar

- (1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo—
 - (a) landlord (ar ôl rhoi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 173) wedi gwneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 178, a
 - (b) y llys wedi gwrthod gwneud gorchymyn adennill meddiant gan ei fod o'r farn bod yr hawliad yn hawliad dialgar (gweler adran 217).
 - (2) Ni chaiff y landlord roi hysbysiad arall o dan adran 173 i ddeiliad y contract cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y gwrthododd y llys wneud gorchymyn adennill meddiant.
 - (3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnodol sy'n ymgorffori adran 173 fel un o delerau'r contract.”
- (3) Yn lle adran 198 o Ddeddf 2016 (cyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan gymal terfynu'r landlord: gofynion sicrwydd a blaendal) rhodder—

“198 Cyfyngiad ar y defnydd o gymal terfynu'r landlord yn dilyn hawliad meddiant dialgar

- (1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo—
 - (a) landlord (ar ôl rhoi hysbysiad i ddeiliad contract o dan gymal terfynu'r landlord) wedi gwneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 199, a
 - (b) y llys wedi gwrthod gwneud gorchymyn adennill meddiant gan ei fod o'r farn bod yr hawliad yn hawliad dialgar (gweler adran 217).
- (2) Ni chaiff y landlord roi hysbysiad arall o dan gymal terfynu'r landlord i ddeiliad y contract cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y gwrthododd y llys wneud gorchymyn adennill meddiant.
- (3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnod penodol sydd â chymal terfynu'r landlord.”

Gwybodaeth Cychwyn

I4 A. 9 mewn grym ar 7.6.2021, gweler **a. 19(3)**

Newidiadau i ddeddfwriaeth:

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Rhoi hysbysiad y landlord a thynnu'r hysbysiad yn ôl.